Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio:
# 15 - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Awst 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6328**
E-bost: **Senedd.Research@Senedd.Wales**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Y Gyfres Gynllunio:** 15 - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Awst 2022

**Awdur:**
Rhiannon Hardiman

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **1**

**Beth yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?** .......... **1**

Y cyd-destun rheoleiddio .......... 1

**Pryd mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?** .......... **3**

Y corff sy'n gwneud penderfyniadau .......... 3

**Beth yw'r broses ar gyfer cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?** .......... **4**

1. Sgrinio .......... 4

2. Asesiad priodol .......... 4

3. Rhanddirymiad .......... 5

**A ellir herio penderfyniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?** .......... **7**

**Ffynonellau allweddol** .......... **7**

Llywodraeth Cymru .......... 7

Deddfwriaeth allweddol .......... 7

Yr Arolygiaeth Gynllunio .......... 7

Ymchwil y Senedd .......... 7

# Cyflwyniad

Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn rhoi trosolwg o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cyflwynwyd yr Asesiad i roi amddiffyniad llym i safleoedd a ddynodwyd yn safleoedd Natura 2000 yr UE ac mae'n parhau i fod yn berthnasol i safleoedd o'r fath sydd bellach yn dod o dan ddynodiad gwarchodedig y DU. Y nod yw cynnal uniondeb y rhywogaethau a'r cynefinoedd y dynodwyd y safleoedd hyn ar eu cyfer. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu beth yw Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, pryd mae eu hangen, beth sy'n digwydd yn ystod camau Asesiad a sut y gellir eu herio.

# Beth yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

Nod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw osgoi unrhyw gynnig "cynllun" neu "brosiect" newydd rhag cael effaith sylweddol ar rai safleoedd gwarchodedig. Safleoedd gwarchodedig yn y cyd-destun hwn yw'r rhai a fu'n rhan yn flaenorol o rwydwaith safleoedd **Natura 2000 yr UE**. Cyfeirir atynt gyda'i gilydd bellach fel "Safleoedd Ewropeaidd" neu ran o "rwydwaith safleoedd cenedlaethol" y DU.

Mae enghreifftiau o "gynllun" sy'n gofyn am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol neu gynllun perygl llifogydd, tra gallai enghreifftiau o "brosiectau" gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, cynllun ynni llanw neu gais am ganiatâd cynllunio.

Mae'r broses yn helpu i gynnal uniondeb y rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol y dynodwyd y safleoedd hyn ar eu cyfer. Er bod Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu amddiffyniad llym, nid ydynt yn waharddiad ar ddatblygiadau neu weithgareddau newydd. Yn hytrach maent yn cynnwys archwiliad fesul achos o'r goblygiadau i bob safle, ei nodweddion cymhwyso a'i amcanion cadwraeth.

## Y cyd-destun rheoleiddio

Cyflwynwyd y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan Gyfarwyddebau Natur yr UE: **Cyfarwyddeb yr UE 92/43/CEE (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)**

a **Chyfarwyddeb yr UE 2009/147/EC (y Gyfarwyddeb Adar)**. Y rheoliadau diweddaraf i weithredu'r rhain yn y DU yw **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017** (Rheoliadau 2017) a **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017**.

Roedd ymadael â'r UE yn golygu bod yn rhaid diwygio Rheoliadau 2017 i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. Mae **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** yn ymwneud yn bennaf â throsglwyddo swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau priodol yng Nghymru a Lloegr.

O dan y Rheoliadau diwygiedig, nid yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn y DU bellach yn rhan o rwydwaith Natura 2000. Yn lle hynny, crëwyd rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol ar y tir ac ar y môr, gan gynnwys ardaloedd morol y glannau ac alltraeth yn y DU. Mae'n cynnwys:

- ardaloedd ACA ac AGA presennol; ac
- ardaloedd ACA ac AGA newydd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau hyn.

Mae'r holl brosesau neu delerau eraill yn Rheoliadau 2017 yn parhau heb eu newid ac mae'r **Canllawiau ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau. Er bod safleoedd y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel rhan o rwydwaith "Natura 2000" bellach yn cael eu cyfeirio atynt fel rhan o'r "rhwydwaith safleoedd cenedlaethol", mae'r term "Safleoedd Ewropeaidd" wedi'i gadw at ddibenion rheoleiddio.

Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn berthnasol i **safleoedd gwlyptir Ramsar**, a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 oherwydd eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol.

# Pryd mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

Mae cynllun neu brosiect nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig neu'n angenrheidiol i reoli'r safle gwarchodedig, ond sy'n debygol o gael effaith sylweddol arno, yn destun asesiad (gweler **Rheoliad 63**). Rhaid ei gymhwyso i brosiectau morol a daearol a allai effeithio'n andwyol ar uniondeb y rhywogaethau a'r cynefinoedd y dynodwyd y safleoedd ar eu cyfer. Gallai effaith o'r fath fod ar y safle, ger y safle neu gryn bellter i ffwrdd, er enghraifft drwy achosi llygredd aer, dŵr neu sŵn neu effeithio ar ardal fwydo a ddefnyddir gan un o rywogaethau dynodedig y safle.

Mae Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn berthnasol i brosesau cynllunio, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol a **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**.

## Y corff sy'n gwneud penderfyniadau

Gall y sawl sy'n gwneud penderfyniadau o dan ofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau harbwr, a chyrff cyhoeddus eraill. Maent yn pennu a oes angen asesiad priodol ai peidio, a fyddai cynigion yn cael effaith andwyol ac, os oes angen, a yw profion rhanddirymu yn cael eu bodloni ai peidio.

Rhaid i'r asesiad gael ei gynnal gan yr "awdurdod cymwys" mwyaf perthnasol. O dan y canllawiau diweddaraf, mae'r awdurdod cymwys naill ai:

- yn gorff cyhoeddus sy'n penderfynu rhoi trwydded, cydsyniad neu ganiatâd arall i waith ddigwydd, mabwysiadu cynllun neu wneud gwaith drosto'i hun, megis awdurdod cynllunio lleol;
- ymgymerwr statudol sy'n cyflawni ei waith, fel cwmni dŵr neu ddarparwr ynni;
- gweinidog neu adran llywodraeth, er enghraifft, sy'n llunio polisi cenedlaethol neu'n penderfynu ar apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod cymwys arall; neu
- unrhyw un sy'n dal swydd gyhoeddus, megis arolygydd cynllunio, ombwdsmon neu gomisiynydd.

Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff cadwraeth natur statudol a rhaid i'r awdurdod cymwys ymgynghori ag ef yn ystod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i roi cymorth a chyngor ar rai penderfyniadau. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl disgresiwn yr awdurdod cymwys (gweler **Rheoliad 2017 63(4))**.

O dan ofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i'r awdurdod cymwys hysbysu'r "awdurdod priodol" cyn iddo gydsynio i gynllun neu brosiect ar y sail bod y profion rhanddirymiad yn cael eu bodloni (a eglurir isod) lle byddai'n cael effeithiau andwyol ar uniondeb safle gwarchodedig. Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" yng Nghymru.

# Beth yw'r broses ar gyfer cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

Mae **Rhan 6 (Asesu Cynlluniau a Phrosiectau)** o Reoliadau 2017 yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Eglurir y broses hon ymhellach yn y **Canllawiau ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**. Gall y broses gael hyd at dri cham, yn dibynnu ar yr hyn a benderfynir ym mhob cam.

## 1. Sgrinio

Mae'r cam cychwynnol hwn yn gwirio a yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar amcanion cadwraeth y safle. Os na, nid oes angen iddo fynd drwy'r camau asesu neu randdirymu priodol.

Rhaid i'r awdurdod cymwys ystyried a yw'n gynnig cynllun neu brosiect ac os felly, **nad** yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rhedeg y safle. Os canfyddir bod hyn yn wir, dylai'r broses sgrinio ystyried nodweddion dylunio annatod y cynnig, megis ei osodiad, amseriad a lleoliad.

Dylai penderfynu a oes gan y cynnig y potensial i gael effaith sylweddol mewn perthynas ag amcanion cadwraeth y safle hefyd ystyried unrhyw gynigion eraill, e.e. ceisiadau cynllunio a allai, ar y cyd â'r cynnig hwn, fod â'r potensial i achosi niwed.

Ar y cam hwn ni ddylid ystyried unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.

## 2. Asesiad priodol

Rhaid cynnal asesiad lle mae'n debygol y bydd risg sylweddol i'r safle neu lle nad yw'n bosibl diystyru risg gyda'r dystiolaeth a ddarparwyd. Lle penderfynir bod angen asesiad, mae'r cam hwn yn asesu effeithiau sylweddol tebygol y cynnig yn fanylach ac yn nodi ffyrdd o osgoi neu leihau unrhyw effeithiau.

Mae'r **canllawiau yn rhoi enghreifftiau o sut y gallai'r safle gael ei effeithio'n andwyol**:

- dinistrio, difrodi neu newid yn sylweddol y cyfan neu ran o gynefin dynodedig;
- tarfu ar boblogaeth rhywogaeth ddynodedig;
- niweidio cysylltedd ecolegol y safle gyda'r dirwedd ehangach;
- niweidio swyddogaeth ecolegol y safle, neu ei allu i oroesi difrod;
- newid amgylchedd ffisegol y safle;
- cyfyngu mynediad i adnoddau y tu allan i'r safle sy'n bwysig i rywogaeth ddynodedig; neu
- atal neu amharu ar waith adfer, neu'r potensial ar gyfer gwaith adfer yn y dyfodol, os yw'n tanseilio amcanion cadwraeth y safle.

Rhaid i'r corff sy'n cynnal yr asesiad allu diystyru pob amheuaeth wyddonol resymol na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar uniondeb y safle cyn caniatáu i'r cynnig fynd yn ei flaen.

Dylai'r asesiad ystyried mesurau sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r cynnig i ddileu neu leihau effeithiau andwyol posibl. Gall yr aseswr neu'r cynigydd gael cyngor ar fesurau lliniaru gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu gynghorydd ecolegol. Os oes angen mesurau lliniaru i osgoi effeithiau andwyol, dylid gosod amodau i sicrhau bod y mesurau'n cael eu gweithredu. Gall y rhain fod yn hyblyg, er enghraifft, gellir eu dileu os yw'n amlwg o waith monitro bod y risg o effeithiau negyddol yn is nag a feddyliwyd yn gyntaf.

## 3. Rhanddirymiad

Os bydd y cynnig yn methu'r asesiad (neu'r "prawf uniondeb") oherwydd na ellir diystyru effaith andwyol ar y safle, rhaid gwrthod y cynnig yn ei ffurf bresennol. Mae hyn yn golygu na roddir caniatâd. Ni all y gwaith fynd yn ei flaen neu ni ellir mabwysiadu'r cynllun oni bai y gall basio tri phrawf cyfreithiol a chael eithriad, a elwir yn "rhanddirymiad".

Dylid hysbysu cynigwyr cyn gynted â phosibl os bydd rhanddirymiad yn cael ei ystyried. Gall ymgynghori ag ecolegydd neu Cyfoeth Naturiol Cymru helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau.

Dyma'r tri phrawf cyfreithiol:

1. nad oes unrhyw atebion ymarferol eraill a fyddai'n llai niweidiol neu'n osgoi difrod i'r safle;

2. mae angen cyflawni'r cynnig am resymau hanfodol er budd y cyhoedd; a
3. gellir sicrhau'r mesurau cydadferol angenrheidiol.

Rhaid cofnodi'r holl ganfyddiadau, gan gynnwys prawf a fethwyd.

Os bydd y cynnig yn pasio pob un o'r tri phrawf, gellir rhoi caniatâd iddo fynd ymlaen o dan randdirymiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr adran berthnasol o Lywodraeth y DU cyn i'r caniatâd gael ei roi neu i unrhyw waith gael ei wneud. Dylid anfon:

- crynodeb o'r cynnig;
- manylion am y Safleoedd Ewropeaidd yr effeithir arnynt;
- yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n dangos y penderfyniad y bydd neu y gallai'r cynnig gael effaith andwyol ar uniondeb y safleoedd;
- tystiolaeth i ddangos nad oes unrhyw atebion amgen;
- tystiolaeth i ddangos bod rhesymau hollbwysig o fudd cyhoeddus tra phwysig i'r cynnig fynd yn ei flaen;
- manylion am y mesurau cydadferol a thystiolaeth i ddangos y byddant yn gweithio; a
- chyngor a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (fel y corff cadwraeth natur statudol) a rhanddeiliaid eraill, a sut y cafodd ei ystyried.

Dylid defnyddio ffurflen hysbysiad rhanddirymiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gyflwyno'r wybodaeth hon. Dylai'r corff asesu gael ymateb o fewn 21 diwrnod calendr. Os na ddaw i law o fewn yr amser hwnnw, yna gall weithredu, cymeradwyo neu fabwysiadu'r cynnig. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y cynnig wedi bodloni un neu fwy o'r tri phrawf, gall gyfarwyddo'r corff asesu i wrthod neu ohirio cymeradwyo. Gall hyn fod oherwydd nad yw'n glir sut y bydd y cynigydd yn gweithredu mesurau cydadferol.

# A ellir herio penderfyniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

Os yw dinesydd am herio penderfyniad a wnaed yn ymwneud ag Asesiad, efallai y bydd am gynnal adolygiad barnwrol o'r penderfyniad. Fodd bynnag, byddai gwneud hawliad am adolygiad barnwrol yn gofyn am gyngor cyfreithiol arbenigol, rhaid ei wneud o fewn chwe wythnos i'r penderfyniad a gall fod yn ddrud iawn. Pe bai'r adolygiad barnwrol yn aflwyddiannus gallai'r dinesydd ystyried a ddylai ofyn am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl. Os bydd yr apêl hefyd yn aflwyddiannus, efallai y bydd apeliadau pellach yn bosibl i Oruchaf Lys y DU.

# Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

- Cyhoeddwyd **Polisi Cynllunio Cymru** (Rhifyn 11) yn 2021.
- **Asesiadau rheoliadau cynefinoedd: diogelu safle Ewropeaidd**, a gyhoeddwyd yn 2021
- **Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio a Chadwraeth Natur**, a gyhoeddwyd yn 2009

## Deddfwriaeth allweddol

- **Cyfarwyddeb yr UE 92/43/CEE** (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)
- **Cyfarwyddeb yr UE 2009/147/EC** (y Gyfarwyddeb Adar)
- **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017** (Rheoliadau 2017)
- **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** (Diwygiad 2019)

## Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Nodyn cyngor deg: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n berthnasol i brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (2012)**

## Ymchwil y Senedd

Mae papurau briffio cynllunio eraill sy'n cael eu llunio gan Ymchwil y Senedd ar gael dan y **categori cynllunio** ar **wefan Ymchwil y Senedd**.